Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Drefach

**Heol Blaenhirwaun**
**Drefach**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 7AN**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Drefach

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Drefach |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 49 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 39 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 8 |
| | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 19.3% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran genedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 25.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 25.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2005 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 08/11/2011 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Drefach yn gymuned hapus a gofalgar lle mae gofalu am les disgyblion yn sylfaen gadarn i'w holl waith. Mae'r ysgol wedi ffedereiddio ag Ysgol Gynradd Cross Hands, ac mae'r ddwy ysgol yn cydweithio'n agos a llwyddiannus â'i gilydd. Mae gan y pennaeth, arweinwyr ac aelodau'r corff llywodraethol drosolwg effeithiol o gynnydd ar draws y ddwy ysgol, ac maent yn dyrannu adnoddau'n effeithiol. Mae staff y ddwy ysgol yn cael eu cyflogi gan y ffederasiwn ac, o ganlyniad, mae hyblygrwydd buddiol sy'n hwyluso cydweithio agos. Er enghraifft, mae'r athrawon yn cydweithio ar draws y ffederasiwn wrth arwain agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso yn drylwyr ac yn caniatáu i arweinwyr dargedu blaenoriaethau ar draws y ffederasiwn.

Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau sylfaenol. Maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac yn sgwrsio'n gynyddol hyderus gyda chymorth oedolion. Er hyn, mae tueddiad iddynt droi at y Saesneg gyda'u ffrindiau yn rhy aml. Mae medrau darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, yn enwedig eu medrau creadigol. Ar draws yr ysgol, mae perthynas weithio agos a chefnogol rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad cyfoethog o weithgareddau, sy'n magu annibyniaeth gynyddol ymysg y disgyblion. Mae'r athrawon yn holi'n effeithiol er mwyn annog meddwl a rhoi cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu syniadau.

Mae'r staff yn defnyddio technoleg yn fedrus er mwyn hwyluso cydweithio ag Ysgol Cross Hands. Mae'r ysgol yn rhan ganolog o'i chymuned, ac mae'r disgyblion yn cyfoethogi'r berthynas drwy weithgareddau fel ymweld â'r siop leol er mwyn prynu cynhwysion i wneud picnic yn yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar ac ysgrifennu Cymraeg y disgyblion

A2 Sicrhau lefel briodol o her ar gyfer pob disgybl

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sy'n is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yno. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn cymhwyso eu medrau creadigol yn dda iawn mewn ystod o feysydd dysgu.

Mae medrau gwrando y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y blynyddoedd ifancaf yn dda. Maent yn gwrando ar ei gilydd ac ar oedolion yn ofalus gan ymateb yn briodol iddynt. Gyda chefnogaeth gyson yr oedolion, mae medrau llafar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn sgwrsio yn fwy hyderus yn y Gymraeg gan siarad gyda balchder am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft ynglŷn ag ymweliad 'Trench y tarantwla' i'r dosbarth.

Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau llafar yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau ac yn cyfrannu'n bwrpasol i drafodaethau a dadleuon dosbarth, er enghraifft wrth drafod pynciau llosg yn y sesiynau 'Gwener Geiriol' neu 'Fireworks Friday'. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn tueddu i droi at y Saesneg yn hytrach na dyfalbarhau â sgyrsiau yn y Gymraeg. Nid oes gan y disgyblion hyn afael digon cadarn ar gystrawennau Cymraeg ac mae diffyg geirfa yn llesteirio eu gallu i drafod eu gwaith yn hyderus.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod ffurf a sŵn llythrennau'n dda ac mae eu medrau darllen yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae mwyafrif yn darllen llyfrau syml yn gywir gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol yn y ddwy iaith. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi'n gywir i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth gymharu dwy wlad ryngwladol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn creu marciau yn bwrpasol tu fewn a thu allan i'r dosbarth er mwyn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml. Erbyn canol yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn briodol yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae eu geirfa gyfyngedig yn effeithio ar eu gallu i ysgrifennu'n estynedig. Mae safon ysgrifennu Saesneg llawer o ddisgyblion yn gadarn. Maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd, paragraffu ac atalnodi, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur o safbwynt milwr adeg rhyfel.

Yn y blynyddoedd ieuengaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae ganddynt afael ddeallus ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin arian yn gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau yn gyson yn yr ardaloedd dysgu gwahanol. Er enghraifft, maent yn

ymarfer eu medrau mesur yn bwrpasol wrth amcangyfrif a mesur taldra gwahanol goed ffa hud. Erbyn brig yr ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth sicr o rinweddau mathemategol. Mae hyn yn eu galluogi i ddod o hyd i gyfaint siapiau 3D cyfansawdd yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Yn y blynyddoedd ieuengaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn rheoli tegan rhaglenadwy yn gywir er mwyn dilyn llwybr penodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn cyfuno eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth godio rhaglen i greu animeiddiad syml. Mae medrau'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn adeiladu'n gadarn ar y sylfaen hon.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau buddiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau mudol mân yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddylino toes wrth wrando ar gerddoriaeth. Mae disgyblion yng nghanol yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol rheolaidd yn yr ardal allanol, gyda'r disgyblion hŷn yn cymryd rhan yn aml mewn gweithgareddau addysg gorfforol fel gwersi tenis a nofio.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn addas. Erbyn brig yr ysgol, maent yn cymhwyso eu medrau er mwyn creu darnau o waith celf, dawns a cherddorol yn gelfydd. Er enghraifft, maent yn cymharu dathliadau Calan Gaeaf gyda Dia de Mertos (Diwrnod y Meirw) ym Mecsico ac yn ymateb i gerddoriaeth drwy ddilyn map stori. Ar ôl myfyrio, maent yn creu darn o gerddoriaeth wreiddiol gyda dechrau, canol a diwedd penodol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n hapus yn yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn yr awyrgylch cartrefol a chynhwysol sy'n bodoli ac maent yn barod i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff. Mae'r disgyblion yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd, gydag oedolion yn y dosbarthiadau ac mewn adegau llai ffurfiol. Maent yn hyderus i drafod eu teimladau yn ddyddiol o fewn eu dosbarthiadau, sy'n cyfrannu at les emosiynol disgyblion yn effeithiol. Mae bron bob disgybl yn garedig i'w gilydd ac yn cyfarch ymwelwyr yn gyfeillgar. Maent yn dal drysau i eraill wrth fynd o gwmpas yr ysgol ac yn dangos parch tuag at ei gilydd. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud yn eu dosbarthiadau ac yn mwynhau dysgu cysyniadau newydd. Maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau i gwblhau eu tasgau. Maent yn hyderus wrth drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion ac yn ymateb yn dda i adborth gan staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol i'w dysgu trwy gynnig syniadau a holi cwestiynau ynglŷn â'r thema. O ganlyniad, mae athrawon yn addasu'r gweithgareddau yn aml i ddilyn trywydd y disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol. Maent yn trafod eu teimladau gyda'u cyfoedion mewn ffordd sensitif ac yn dangos empathi, sy'n cyfrannu'n dda at eu medrau cymdeithasol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda am sut i gadw eu hunain, ac eraill, yn ddiogel ar-lein.. Mae'r 'Eco Arwyr' yn gwrando ar farn eu cyfoedion ac yn cymryd gofal arbennig o safle'r ysgol, er enghraifft drwy gasglu sbwriel yn ystod amseroedd egwyl.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion dealltwriaeth dda o'r angen i gadw'n heini a bwyta'n iach. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn wedi astudio a mesur effaith siwgr ar y corff. Maent yn derbyn gwersi ymarfer corff yn rheolaidd a sesiynau o fyfyrdod corfforol sydd yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol. Maent yn cyfrannu'n dda mewn gwasanaethau a gwersi, sy'n hyrwyddo elfennau pwysig fel eu dealltwriaeth o degwch, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r holl staff yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau perthnasoedd gwaith cryf gyda phob disgybl. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol ac yn gweithio'n galed i feithrin perthynas gynhwysol a gweithgar. O ganlyniad, mae'r amgylchedd dysgu yn gefnogol ac ysgogol sy'n datblygu brwdfrydedd disgyblion tuag at eu dysgu. Yn yr arfer orau, mae cyflwyniadau'n fywiog ac yn sbarduno disgyblion i ddysgu yn frwdfrydig. Yn yr achlysuron hyn, mae'r staff yn amrywio technegau addysgu yn effeithiol drwy sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn eu holi'n fedrus a'u hannog i feddwl yn ddwys ac i ystyried eu hymatebion. Mae'r staff yn ymyrryd yn gelfydd ar adegau er mwyn symud y dysgu ymlaen gydag unigolion a grwpiau. Er bod gan y staff wybodaeth gadarn am allu ac anghenion disgyblion, nid yw'r gweithdrefnau olrhain cynnydd yn ddigon miniog i'w galluogi i ddarparu'r lefel briodol o her yn gyson i bob grŵp o ddisgyblion.

Mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn effeithiol. Maent yn atgoffa disgyblion am ddysgu blaenorol ac yn gwneud cysylltiadau effeithiol â'u gwaith presennol. Mae'r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb bron bob disgybl gan baratoi gweithgareddau sy'n eu hysgogi i ddysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn creu 'bomiau bath' ar gyfer y teulu. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau creadigol, gwyddonol a mathemategol yn effeithiol wrth gynllunio a chreu'r cynnyrch. Mae athrawon yn defnyddio canmoliaeth ac adborth yn bwrpasol er mwyn dathlu llwyddiannau disgyblion a'u harwain at eu camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion asesu a myfyrio ar eu perfformiad eu hunain, a pherfformiad disgyblion eraill, yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn manteisio'n ddigon rheolaidd ar gyfleoedd i atgyfnerthu a datblygu dealltwriaeth a defnydd disgyblion o'r Gymraeg.

Ar draws y ffederasiwn, mae athrawon yn cyd-gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae safonau disgyblion a'r modd maent yn cymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n gadarn. Yn yr

arferion gorau, mae athrawon yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws y ffederasiwn.

Mae'r ysgol yn paratoi'n fwriadus ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn arbrofi â thasgau amrywiol sy'n cael eu cynllunio'n bwrpasol yn unol â'r chwe maes dysgu a phrofiad, a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu'n effeithiol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr mentrus a chreadigol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r holl staff yn cydweithio'n dda er mwyn creu cymuned ofalgar ac amgylchedd dysgu diogel. Mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n sicrhau bod iechyd a lles pob disgybl yn flaenoriaeth barhaus. Mae'r ysgol yn cynnig amryw gyfleoedd i ddisgyblion gadw'n heini trwy weithgareddau pwrpasol sy'n cynnwys ymweld â choedwig leol, tir yr ysgol a chynnal sesiynau gwerthfawr sy'n hyrwyddo myfyrdod meddyliol a chorfforol. Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac mae disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn briodol, er enghraifft drwy berfformio rap cerdd ar farddoniaeth 'Caredigrwydd'. Mae hyn yn datblygu medrau creadigol a hunanhyder disgyblion ac yn cyfrannu'n fuddiol at feithrin parch disgyblion at eu gwaith.

Mae'r ethos cynhwysol ac ymweliadau gan y gymuned yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn dda, gyda chyfleoedd i fyfyrio ar faterion cyfoes a chrefyddau eraill. Maent yn cynllunio ar gyfer cymunedau amlddiwylliannol a pherthnasoedd amrywiol sy'n cyfrannu'n dda at eu datblygiad moesol a chymdeithasol. Maent wedi sefydlu diwylliant cryf o barch a chydraddoldeb o fewn eu cymuned, er enghraifft trwy lunio a chreu arwyddair i'r ysgol, logo newydd ar draws y ffederasiwn a derbyn mainc i'r buarth gan yr elusen 'Men's Sheds'. Caiff hyn ei amlygu gydag ymgyrch lwyddiannus ddiweddar sydd wedi ei harwain gan ddisgyblion i gasglu tuag at elusen yn yr Wcráin.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddylanwadu ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae aelodau'r 'sgwodiau' a chynghorau yn ymateb i anghenion eu cyfoedion yn dda. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn ac yn cefnogi anghenion disgyblion yn briodol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn cydweithio'n dda ag asiantaethau allanol er mwyn darparu sesiynau pwrpasol sy'n diwallu anghenion disgyblion. Yn ogystal, mae ymyraethau priodol yn cefnogi disgyblion ag anghenion i wella medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd yr ymyraethau yn gyfyngedig. Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau datblygu unigol pwrpasol i ddisgyblion sy'n cynnwys cyfleoedd i'w hadolygu yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion. Maent yn cydweithio effeithiol ag asiantaethau lles er mwyn hyrwyddo presenoldeb da. Mae ganddynt drefniadau effeithiol i gysylltu â'r cartref pan fydd disgybl yn absennol. Mae holl staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol i greu cymuned hapus ac ethos diogel o

fewn yr ysgol. Mae eu trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu ffederasiwn ysgolion cynradd Cross Hands a Drefach. Mae'r weledigaeth honno wedi ei seilio ar gydweithio agos er mwyn hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn hybu cyfleoedd i rannu arferion ac arbenigeddau er mwyn datblygu hyder a chwilfrydedd y disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae rôl y corff llywodraethol yn allweddol wrth gynnal momentwm cydweithio ar draws y ffederasiwn. Mae aelodau'r corff yn adnabod yr ysgolion yn dda iawn. Maent yn cefnogi'r pennaeth a'r arweinwyr yn effeithiol er mwyn datblygu elfennau o'r ddarpariaeth yn barhaus. Mae gwaith yr ysgolion yn cael ei hyrwyddo'n sylweddol gan fod y staff yn cael eu cyflogi gan y ffederasiwn yn hytrach na'r ysgolion unigol. O ganlyniad, mae hyblygrwydd defnyddiol gan arweinwyr i ymateb yn unol ag anghenion y ddwy ysgol. Golyga hyn y gall y corff ddyrannu adnoddau dynol at wahanol ddosbarthiadau yn unol â'r anghenion ar y pryd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau trylwyr ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu o fewn ysgolion y ffederasiwn. Mae gan arweinwyr a'r staff wybodaeth fanwl am gryfderau'r ysgolion unigol, a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Maent yn cynnal ystod eang o weithgareddau craffu, sy'n cynnwys mewnbwn rheolaidd gan aelodau'r corff llywodraethol. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar wahanol agweddau o'r ddarpariaeth ac yn caniatáu iddynt fod â throsolwg strategol defnyddiol o waith y ddwy ysgol, ac ymateb i'w hanghenion gwella. Er enghraifft, maent wedi blaenoriaethu'r angen i hyrwyddo'r ddarpariaeth i hybu llafaredd Cymraeg disgyblion.  Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus, gan ddyrannu arian ac adnoddau er mwyn diwallu anghenion cyfredol y ffederasiwn.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos gadarnhaol sy'n hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff yn llwyddiannus. Noda'r athrawon a'r cynorthwywyr eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i rannu arferion ac arbenigeddau ar draws y ffederasiwn a'u bod yn elwa o'r gwaith hwn yn fawr. Bu cyfleoedd i ganolbwyntio ar addysgu er mwyn datblygu dealltwriaeth staff o bwysigrwydd addysgeg wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bu staff hefyd yn canolbwyntio ar fagu cysondeb yn lefel yr her sy'n cael ei darparu ar gyfer disgyblion er bod lle i wella hyn ym mhellach.

Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol ar gyfer datblygiad proffesiynol staff, gan gynnwys amrediad o hyfforddiant gwerthfawr. Er enghraifft, ymatebodd arweinwyr i ddyheadau aelodau o staff cymorth yr ysgolion drwy hwyluso'r cyfle iddynt fynychu hyfforddiant ar gyfer cymhwyso fel uwch gynorthwywyr ac ysgwyddo cyfrifoldebau ehangach. Bellach, maent yn cydweithio'n agos ac fe gafodd hyn effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ieuengaf y ffederasiwn. Mae trefniadau ar gyfer hyrwyddo datblygiad proffesiynol yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau gwella'r ysgol, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer elfennau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau ar y cyd i athrawon a staff cymorth ar draws y ffederasiwn. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu medrau arwain, ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad ar draws y gwahanol ddosbarthiadau.

Mae arweinwyr yn cysylltu dysgu proffesiynol yn glir â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn cydnabod nodweddion effeithiol ar draws y ddwy ysgol o fewn y ffederasiwn. Mae gweithdrefnau arwain meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru yn dechrau gwreiddio ac yn darparu sylfaen gadarn i'r ffederasiwn adeiladu arni. Mae arweinwyr a staff ar draws y ffederasiwn yn rhannu arfer dda, a hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill er mwyn trafod ac arsylwi arfer yno. Er enghraifft, mae athrawon sy'n gweithio gyda disgyblion o'r un oedran yn cydweithio wrth gyflwyno gwersi, gydag un ohonynt yn bresennol yn y dosbarth a'r llall yn bresennol ar sgrin. Mae'r math hwn o weithgaredd yn hyrwyddo cydweithio agos a buddiol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol gydag amrediad o asiantaethau. Mae perthynas glòs a chefnogol rhwng yr ysgol â rhieni. Maent yn cydweithio'n agos er mwyn rhannu gwybodaeth am gynnydd y disgyblion, ac wrth drafod eu lles.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/09/2022